



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adroddiad Blynyddol Arolwg Defnydd Llety Croeso Cymru 2020

ISBN Digidol: 978-1-80195-856-1

YMCHWIL GYMDEITHASOL
Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Rhif Ymchwil
Gymdeithasol:
58/2021
Dyddiad Cyhoeddi
15 Medi 2021
© Hawlfraint y Goron 2021

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg.
This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron 2021





Cydnabyddiaeth

Hoffem gydnabod cefnogaeth a chymorth gan weithredwyr yn y sector llety sy'n cyflwyno eu data i Arolwg Defnydd Llety Croeso Cymru bob mis. Heb eu cyfraniad nhw, ni fyddai'r data a ddangosir yn yr adroddiad hwn yn bosib.

Rhagair

Mae arolwg defnydd llety gwesty â gradd wedi'i gynnal yn barhaus ers 1972 i fonitro lefelau o alw am ystafelloedd gwesty a gwelyau yng Nghymru. I gydymffurfio â gofynion Cyfarwyddyd yr UE ar Ystadegau Twristiaeth, estynnwyd yr arolwg hwn ym 1997 i gynnwys yr holl lety â gwasanaeth, gan gynnwys tai llety, sefydliadau gwely a brecwast a llety â gwasanaeth heb ei raddio. Mae Arolwg Defnydd Llety Croeso Cymru yn rhan hanfodol o'r broses o gasglu gwybodaeth am dwristiaeth, llunio cynlluniau busnes a hysbysu strategaethau marchnata.

Cynhaliwyd yr arolwg hunanddarpar mewn fformatiau amrywiol ers 1987. Mae'r arolwg hwn yn cynnwys llety hunanddarpar, cartrefi gwyliau carafanau, carafanau teithio a pharciau gwersylla. Yn ogystal, yn 2008, cafodd hosteli a thai bynciau eu cynnwys yng nghwmpas yr arolwg hefyd.

Mae hwn yn adroddiad crynhoi o Arolwg Defnydd Llety Croeso Cymru 2020, sy'n cynnig cymariaethau i flynyddoedd blaenorol lle bo'r rheini ar gael ac sy'n ystyried y ffaith fod llawer o fusnesau llety wedi gorfod cau dros dro am gyfnodau o sawl mis drwy gydol y flwyddyn¹. Mae set lawn o dablau data sy'n dangos tueddiadau dros y 10 mlynedd diwethaf ar gael fel atodiad i'r adroddiad hwn.

Mewn blwyddyn nodweddiadol, mae'r arolwg yn casglu data perfformiad allweddol o sampl o 1,250 o ddarparwyr llety ledled y wlad, er bod meintiau'r samplau wedi amrywio yn ystod 2020 oherwydd cau yn sgil Covid-19, a cheir rhagor o fanylion am hyn ar Sleid 9. Mae'r sampl yn cynnwys gwestai, sefydliadau gwely a brecwast a thai llety, hosteli, busnesau hunanddarpar a safleoedd gwersylla a llety i garafanau.

Rhagair

Amcanion allweddol yr arolwg defnydd llety yw monitro a gwerthuso tueddiadau mewn perfformiad llety a llywio cynllunio a datblygu twristiaeth rhanbarthol a chenedlaethol i Groeso Cymru a rhanddeiliaid twristiaeth eraill. At hynny, mae'r arolwg yn darparu gwybodaeth fusnes i ddarparwyr llety a busnesau twristiaeth eraill i'w cynorthwyo i ehangu a datblygu. Mae adroddiadau meincnodi sy'n dangos cymhariaethau â darparwyr llety eraill ar gael i'r holl gyfranogwyr sy'n cyflwyno eu data bob mis, gan ddarparu gwybodaeth hynod ddefnyddiol i fusnesau.

Newid i ddulliau adrodd am ddeiliadaeth

Ym mis Ionawr 2014, gwnaed newid i ddata deiliadaeth gwestai wrth gynnwys data syndicetiedig am tua 100 o westai mwy (gyda 100+ o ystafelloedd) a ddarparwyd gan STR yn y cyfrifiad o ddeiliadaeth gwestai cyffredinol yng Nghymru. Mae'r data hwn wedi'i gynnwys ers 2014 ond ddim ar gyfer unrhyw flwyddyn cyn hyn. Mae cynnwys y data hwn yn gwneud yr arolwg llawer yn fwy cadarn ond efallai y bydd yn cael effaith ar dueddiadau cyn 2014. Ysgrifennwyd y darn am westai yn yr adroddiad hwn gan STR i'w gynnwys yn yr adroddiad blynyddol cyffredinol.

Rhagair

TERMINOLEG

Defnydd Ystafelloedd - Nifer yr ystafelloedd a oedd yn llawn yn ystod y mis, wedi'i mynegi fel canran o gyfanswm nifer yr ystafelloedd a oedd ar gael yn ystod y mis (gan ystyried unrhyw gau neu gynnydd dros dro yn nifer yr ystafelloedd a oedd ar gael bob nos).

Defnydd Gwelyau - Nifer yr arosiadau dros nos yn ystod y mis, wedi'i mynegi fel canran o gyfanswm nifer y gwelyau a oedd ar gael yn ystod y mis (gan ystyried unrhyw newidiadau dros dro yn nifer y gwelyau a oedd ar gael bob nos).

Defnydd Unedau - yn cael ei fesur trwy gysylltu nifer yr unedau a osodwyd i gyfanswm nifer yr unedau a oedd ar gael i'w gosod ystod y cyfnod hwnnw.

Cyd-destun

Yn ystod 2020, gwelwyd dechrau pandemig byd-eang a chafodd y coronafeirws effaith sylweddol ar dwristiaeth ddomestig a rhyngwladol. Arweiniodd y penderfyniad digynsail i gyflwyno cyfnod clo ledled y DU o 2 Mawrth at lawer o fusnesau yn cau dros dro. Yng Nghymru, roedd effaith enfawr ar lety ar draws pob sector.

Cyn i gyfnod clo cenedlaethol y DU ddechrau ar 23 Mawrth 2020, roedd lefelau defnydd ar draws yr holl sectorau a gwmpesir yn yr adroddiad cryno hwn yn weddol gyson â blynyddoedd blaenorol (2018 a 2019).

Yn ystod y cyfnod clo rhwng 23 Mawrth ac 11 Gorffennaf, roedd llawer o fusnesau wedi cau dros dro oherwydd pandemig COVID-19. Roedd y sampl fach yr adroddwyd arni yn ystod y cyfnod hwn yn y sector gwestai yn cynnwys gwestai a oedd yn darparu llety angenrheidiol i weithwyr allweddol, grwpiau bregus a'r rhai a oedd wedi bod yn sownd yn eu llety oherwydd y cyfnod clo a'r cyfyngiadau ar deithio.

Ar 6 Gorffennaf, cododd Gymru ei chyfyngiadau "Aros yn Lleol", a alluogodd bobl i ymweld ag ardaloedd eraill o'r wlad ac ymhellach i fwrdd. Ar 11 Gorffennaf, codwyd cyfyngiadau clo ar ddefnyddio llety, er y mabwysiadwyd dull graddol yn ystod mis Gorffennaf. Gallai llety a oedd yn gwbl hunangynhwysol fel bythynnod gwyliau, carafanau gwyliau gan gynnwys carafanau teithiol modern a chartrefi modur a rhywfaint o lety glampio ailagor. Roedd hyn hefyd yn cynnwys gwestai a llety â gwasanaeth arall (Gwely a Brechwast, hosteli ac ati) a oedd yn darparu ystafelloedd en-suite a phrydau bwyd ystafell. Ni ail-agorodd llety a oedd yn cynnig cyfleusterau a rennir fel safleoedd gwerysyla a charafanau a hosteli tan 25 Gorffennaf.

Fodd bynnag, ni ail-agorodd pob busnes ar unwaith ac roedd rhai wedi gohirio ailagor i sicrhau bod eu hadeiladau yn ddiogel o ran COVID-19 ac nid oedd eraill a oedd yn rhedeg busnesau teuluol bach o'r farn ei bod yn ariannol hyfyw agor o gwbl gyda chyfyngiadau ar waith. Roedd y risg i rai perchnogion busnes a oedd wedi bod yn cysgodi hefyd yn ffactor yn eu penderfyniad i beidio ag ailagor. Gyda busnesau yn derbyn ymwelwyr yn ystod rhan olaf Gorffennaf, Awst a Medi, gwelwyd arwyddion o adferiad yn y lefelau defnydd ar draws rhai sectorau.

Cyd-destun (parhad)

Cyflwynwyd cyfnodau clo lleol pellach ym mis Medi ac roedd cyfnod atal byr cenedlaethol ar waith o 23 Hydref i 9 Tachwedd. Daeth cyfyngiadau pellach i rym ganol nos ar 19 Rhagfyr (Lefel Rhybudd 4). Cafodd y rheolau eu llacio'n fyr ar gyfer Dydd Nadolig cyn i'r cyfnod clo (Lefel Rhybudd 4) ddechrau eto ar 26 Rhagfyr.

Dylid nodi nad yw'r holl siartiau ym mhob rhan yn seiliedig ar yr un cyfnodau neu fetrigau oherwydd effeithiau cyfnodau clo a chasglu data, a bod yr adroddiad hwn yn cynnwys data sy'n seiliedig ar gyfnodau o 9 a 12 mis, gan ddibynnu ar feintiau sylfaen y data sy'n hygyrch. Yn y sector gwestai, nid oedd yn bosib dangos dadansoddiad 12 mis ar gyfer 2020 mewn rhai o'r dadansoddiadau oherwydd bod bylchau data yn Ebrill, Mai a Mehefin am un neu fwy o'r categorïau dadansoddi. Mewn sectorau eraill, mae'r siartiau'n seiliedig ar gyfartaledd llawn dros 12 mis er bod sefydliadau ar gau am rannau o'r flwyddyn, oherwydd bod y cyfartaledd defnydd blynyddol yn pwysoli'r holl ddata a gyflwynwyd drwy gydol y flwyddyn ar gyfer y sefydliadau hynny a oedd ar agor yn gyfartal.

Mae'r data yr adroddwyd arno yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ddeiliadaeth net sy'n cyfeirio at y busnesau hynny a oedd ar agor ac a ddarparodd ddata yn ystod y cyfnod hwn yn unig. Golyga hyn y bydd y diwydiant yn gyffredinol wedi perfformio'n waeth nag yr awgrymir yn y dadansoddiad hwn. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad hwn yn bwysig er mwyn deall patrymau a thueddiadau defnydd yn y flwyddyn ddigynsail hon.

Methodoleg

Mae The Research Solution Ltd wedi bod yn coladu data i Arolwg Defnydd Llety Croeso Cymru ers 2013, a darperir data gwestai ychwanegol gan STR, wedi'i gynnwys yn y cyfansymiau cyffredinol ar gyfer llety gwesty. Arolwg misol ar-lein yw'r arolwg hwn, sy'n defnyddio data a gasglwyd drwy RIBOS, y porth gwe ar-lein. Hefyd, caiff data ei dderbyn drwy e-bost yn Excel/Word, drwy'r post a thros y ffôn. Mae sawl asiantaeth fawr yn darparu data hunanddarpar a darperir data hefyd gan y Clwb Carafanau a Gwersylla a'r YHA.

Ar ddechrau pob mis, anfonir e-bost at yr holl gyfranogwyr ar-lein ac e-bost gyda negeseuon atgoffa dilynol drwy e-bost neu dros y ffôn pythefnos ar ôl y cyswllt cychwynnol. Mae'r wybodaeth y gofynnir amdani yn amrywio yn ôl sector, fel a ganlyn:

Llety â Gwasanaeth

Nifer yn cyrraedd

Gwesteion (gan gynnwys busnes)

Ystafelloedd yn cael eu defnyddio

Gwelyau ac ystafelloedd ychwanegol yn cael eu defnyddio (os yn berthnasol)

Nifer y gwesteion o dramor

RevPAR

Hunanddarpar

Unedau

Nifer y nosau a osodwyd

Tariff

Maint y parti

Parciau Carafan/Gwersylla

Nifer y lleiniau

Lleiniau a osodwyd

Tariff fesul llain

Hosteli

Nifer yn cyrraedd o'r DU/Tramor

Gwesteion (DU/Tramor)

Ystafelloedd ychwanegol yn cael eu defnyddio (os yn berthnasol)

Oherwydd newid yn y fethodoleg yn ystod 2020, ni ellir cymharu'r data gwestai a thai llety/gwely a brechwast â blynyddoedd blaenorol. Gweler sleid 11 am ragor o wybodaeth.

Methodoleg

Pan gaiff y data misol ei dderbyn, caiff y data ei ddadansoddi ac mae canlyniadau wedi'u cydgrynhai ar gael ar gyfer yr holl sefydliadau sy'n cymryd rhan. Gall cyfranogwyr weld eu canlyniadau nhw gyda'r opsiwn i'w gymharu â darparwyr llety eraill yn eu grŵp o gymheiriaid. Oherwydd pandemig COVID-19, mae'r sampl gyfartalog ar gyfer pob sector llawer yn is nac mewn blynyddoedd blaenorol. Dangosir dadansoddiad misol llawn yn Atodiad 2.

Dangosir y sampl gyfartalog flynyddol gyffredinol ar gyfer pob sector isod:

Gwestai – 24 drwy RIBOS a 95 gan STR

Gwely a brecwast/tai llety - 12

Unedau hunanddarpar – 505 a wnaed o 9% sy'n annibynnol a 91% a ddarparwyd gan asiantaethau hunanddarpar mawr.

Carafanau Teithio a Statig – 24 (Mai-Hydref 2020)

Hosteli/Tai Bync – 15

Caiff ffurflenni a gwblhawyd eu dychwelyd i The Research Solution i'w dadansoddi ar ddiwedd y mis. Cafodd data am 2020 gyfan ei ail-ddadansoddi yn dilyn diwedd y flwyddyn i gynnwys data gwesty ychwanegol o STR ac unrhyw ffurflenni data a ddychwelwyd ar ôl cwblhau'r dadansoddiad misol.

Mae'r ffigurau a adroddwyd yn seiliedig ar yr ail-ddadansoddiad blynyddol ac felly mae'n bosib y bydd amrywiaeth rhwng y rhai hynny a'r rhai a gynrchwyd ar gyfer yr adroddiadau chwarterol.

Sylwer y dylid ystyried y meintiau sampl cymharol fach ar draws rhai o'r sectorau a ddangosir yn yr adroddiad hwn, ynghyd ag amrywiadau misol yn y rhai sy'n darparu data, wrth gymharu data.

DS: oherwydd y sampl fach yn y sector gwely a brecwast/tai llety, nid oes ffigurau ar gyfer de-ddwyrain Cymru.

Maint Sampl

Pan ddechreuodd y cyfnod clo cenedlaethol ar 23 Mawrth, caeodd bron pob busnes llety ledled Cymru dros dro ac eithrio nifer fach o westai mawr a arhosodd ar agor i ddarparu llety dros dro i weithwyr allweddol a grwpiau eraill yr oedd y pandemig COVID-19 yn effeithio arnynt. Er i'r clo ddod i ben ar 11 Gorffennaf, a dechreuodd maint y samplau gynyddu, ni ail-agorodd pob busnes ar unwaith. Erbyn mis Medi, roedd maint samplau yn dechrau dychwelyd i'r lefelau a welwyd yn ystod misoedd cynnar 2020, ond roedd ansicrwydd ar draws y sectorau yn dal i fod yn amlwg. Mae'n werth nodi nad yw'r samplau hunanddarpar ym mis Medi i fis Rhagfyr yn gysylltiedig â phandemig COVID-19 ond y newid ym mherchnogaeth un o'r asiantaethau mawr nad yw'n gallu cyflenwi data defnydd ac felly nid oedd data ar gael yn ystod y misoedd hyn.

Gyda chyfyngiadau lleol yn dal i fod ar waith ar draws sawl tref a chyfnod atal byr cenedlaethol o Hydref 23 i 9 Tachwedd penderfynodd rhai busnesau yn y sector llety â gwasanaeth beidio ag ailagor ar yr adeg hon, er bod y gwestai mwy yn dal i fod ar agor, fel yr adlewyrchir ym maint y sampl yn ystod tri mis olaf y flwyddyn. Cychwynnodd cyfyngiadau Lefel Rhybudd 4 ar 19 Rhagfyr a oedd unwaith eto yn cynnwys cau pob busnes llety heblaw am ddefnydd hanfodol a theithio wedi'i gyfyngu i ardaloedd lleol. Gyda'r rheolau'n cael eu llacio'n fyr ar gyfer Dydd Nadolig, cychwynnodd y cyfnod clo (Lefel Rhybudd 4) eto ar 26 Rhagfyr. Yr holl feintiau samplau misol yn ôl sector a ddangosir ar ddiwedd yr adroddiad hwn yw'r busnesau hynny a oedd ar agor ac a ddarparodd ddata yn eu ffurflen am y mis hwnnw.

Newid mewn Pwysoli

Yn ystod sawl mis yn 2020, nid oedd nifer sylweddol o westai, a thai llety/Gwely a Brechwast ar agor oherwydd cyfyngiadau COVID-19, gan arwain at ddim ond nifer fach o westai a thai llety/gwely a brechwast yn darparu data, a effeithiodd ar y pwysladau. Mae pwysoli data defnydd wedi'i gynllunio i addasu ar gyfer gwahanol lefelau ymateb ar draws rhanbarthau a bandiau maint ond pan fydd maint y sampl yn fach gellir gorliwio effaith y pwysiad ar gyfer rhai rhanbarthau neu fandiau maint. Yn ystod misoedd clo mawr COVID-19 pan oedd maint samplau mewn rhai rhanbarthau mewn ffigurau sengl, byddai wedi cael yr effaith o wneud i sefydliadau unigol ddominyddu'r canlyniadau. Felly, mae'r data yn 2020 yn cael ei gyflwyno heb ei bwysoli a dim ond yn adlewyrchu lefelau defnydd gwestai a thai llety/gwely a brechwast a oedd ar agor yn y mis perthnasol. Oherwydd hyn, dylid nodi na ellir dehongli bod data defnydd gwestai a thai llety/Gwely a Brechwast a ddangosir yn yr adroddiad hwn ar gyfer 2020 yn cynrychioli'r farchnad llety â gwasanaeth yn ei chyfanrwydd, ac o ystyried y gwahaniaethau methodolegol, nid oes modd ei gymharu â data 2018 a 2019 a ddangosir yn adrannau gwestai a thai llety/gwely a brechwast yr adroddiad hwn.

Llety â Gwasanaeth



Mae'r rhan hon yn cyflwyno crynodeb o berfformiad ar gyfer Gwestai a sefydliadau Gwely a Brecwast/tai llety.

Defnydd Ystafelloedd - nifer yr ystafelloedd a oedd yn llawn yn ystod y mis hwn, wedi'i mynegi fel canran o gyfanswm nifer yr ystafelloedd a oedd ar gael

Defnydd Gwelyau - nifer yr arhosiadau dros nos yn ystod y mis hwn, wedi'i mynegi fel canran o gyfanswm nifer y gwelyau a oedd ar gael

Cymru yng Nghyd-destun y DU

Gan adlewyrchu effeithiau dinistriol COVID-19 oherwydd cyfyngiadau teithio eang, a arweiniodd at atal y rhan fwyaf o weithgareddau hamdden a theithio at ddibenion busnes ar gyfer gwystai a oedd yn ymateb, cofnodwyd defnydd sylweddol o is yn 2020. Roedd defnydd ystafelloedd tua 45% yn 2020, tra roedd yn 66% yn 2019.

Roedd stori debyg, os nad yn fwy difrifol, i genhedloedd eraill y DU. Cofnodwyd lleihad mwy trawiadol ymysg gwystai Lloegr, sef gostyngiad o 47 pwynt canran yn y defnydd o ystafelloedd o 78% yn 2019 i 41% yn 2020. Yn ogystal, nododd Gogledd Iwerddon ostyngiad mwy trawiadol mewn galw, a'r Alban mwy eto, gan arwain at gwmp sylweddol yn y defnydd o ystafelloedd (67% i 27%, a 67% i 24% yn y drefn honno).

Roedd y defnydd o welyau yn dilyn yr un tueddiad â gwystai ar draws y DU, gan groesawu nifer llawer llai o deithwyr hamdden a busnes drwy gydol y flwyddyn. Roedd y defnydd o welyau yng Nghymru yn 31% yn 2020, o'i gymharu â 49% yn 2019.

Yn Lloegr, gostyngodd y defnydd o welyau o 55% yn 2019 i 29% yn 2020, sef cwmp o 47 pwynt canran. Yn y cyfamser, yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban, gostyngodd y defnydd o welyau fwy na 50 pwynt canran o 51% i 22% a 53% i 15%. Y wlad lle cafwyd yr effaith fwyaf oedd yr Alban, a welodd gostyngiad trychinebus yn y defnydd o welyau o 72 pwynt canran.

DU - Defnydd Gwesty (Blynyddol)¹

	2019	2020 ²
Yr Alban – defnydd ystafelloedd	67%	24%
Yr Alban – defnydd gwelyau	53%	15%
Gogledd Iwerddon – defnydd ystafelloedd	67%	27%
Gogledd Iwerddon – defnydd gwelyau	51%	22%
Lloegr – defnydd ystafelloedd	78%	41%
Lloegr – defnydd gwelyau	55%	29%
Cymru – defnydd ystafelloedd	66%	45% ³
Cymru – defnydd gwelyau	49%	31% ³

¹Ffynonellau:: Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon (NISRA), VisitScotland, VisitEngland.

²Nodyn: Oherwydd effaith COVID-19, nid yw data defnydd Cymru 2020 wedi'i bwysoli, ond mae data Cymru 2019 wedi'i bwysoli ar fethodoleg sampl a bwysolwyd a ddefnyddiwyd mewn blynyddoedd blaenorol hefyd.

³Cyfrifir y defnydd o ystafelloedd a gwelyau blynyddol cyfartalog gan ddefnyddio'r holl ddata a dderbyniwyd ar gyfer y flwyddyn gyfan ond bydd meintiau samplau ar gyfer pob mis yn amrywio.

Cymru yng nghyd-destun y DU - Parhad

Yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf o fis Mawrth hwyr tan fis Gorffennaf cynnar, roedd y rhan fwyaf helaeth o westai yng Nghymru a mannau eraill yn y DU – tua 90% – wedi cau, ac arhosodd y gweddill ar agor at ddibenion hanfodol yn unig. Cynyddodd nifer y gwestai a oedd ar agor yn dilyn y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf ond bu nifer gyson o westai yn cau, weithiau tro ar ôl tro, yn ystod y flwyddyn. Mae'r data yr adroddwyd amdano yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ddeiliadaeth net sy'n cyfeirio at y busnesau hynny a oedd ar agor ac a ddarparodd ddata yn ystod y cyfnod hwn yn unig.

Cymru yng nghyd-destun y DU - Refeniw

Mae'r data sydd ar gael yn gyhoeddus ar refeniw ystafelloedd gwestai ar ddau fesur allweddol – sef y gyfradd ddyddiol gyfartalog (ADR) a refeniw fesul ystafell wag (RevPAR) – yn dangos bod gwestai yng Nghymru a Lloegr wedi cofnodi gostyngiadau sylweddol yn 2020, wrth i COVID-19 gael effaith ddifrifol ar alw ac, felly, prisiau ystafelloedd gwestai.⁴

Nododd Cymru ADR is (£52.84) ymysg y gwestai a oedd yn adrodd yn 2020 na'r hyn a gofnodwyd yn 2019 (£67.32). Gwelwyd cwmp ADR ychydig yn fwy trawiadol o 24% ymysg gwestai yn Lloegr wrth i ADR leihau o £97.33 yn 2019 i £73.51 yn 2020.

Roedd RevPAR Cymru, sy'n cael ei ystyried gan berchnogion gwestai i fod y metrig perfformiad gwestai pwysicaf gan ei fod yn gwerthuso ystafelloedd a werthwyd a'r rhai nas gwerthwyd, yn £22.71 yng Nghymru yn 2020. Roedd hyn yn cymharu â £50.34 yn 2019.

Yn y cyfamser, gan gynrychioli'r cwmp mwy difrifol mewn defnydd ac ADR yn Lloegr, cwmpodd RevPAR yn fwy nac yng Nghymru. Yn 2020, roedd RevPAR yn £30.00, sef cwmp o 60% o 2019.

Y DU – ADR & RevPAR Gwestai (Blynyddol)³

	2019	2020
Lloegr – ADR	£97.33	£73.51
Lloegr – RevPAR	£75.63	£30.00
Cymru – ADR	£67.32	£52.84 ⁵
Cymru – RevPAR	£50.34	£22.71 ⁵

³Ffynonellau: VisitEngland. Nodyn: Nid oes data ADR a RevPAR Gwesty ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon.

⁴Cyfrifir y gyfradd ddyddiol ar gyfartaledd (ADR) trwy rannu refeniw ystafell â nifer yr ystafelloedd sy'n cael eu gwerthu. Cyfrifir refeniw fesul ystafell sydd ar gael (RevPAR) trwy rannu refeniw ystafell â nifer yr ystafelloedd sydd ar gael. Mae RevPAR yn cael ei ystyried yn rheolaidd fel y mesur perfformiad gwestai mwyaf pwerus gan ei fod yn cyfrifo arenillion yn seiliedig ar bob ystafell westy (naill ai wedi'u gwerthu neu heb eu gwerthu) am unrhyw gyfnod o amser.

⁵ Mae cyfartaledd blynyddol ADR a RevPAR yn seiliedig ar gymedr rhifyddol dros gyfnod o 12 mis.

Cyd-destun Ewropeaidd Ehangach – Defnydd a Refeniw

Mae COVID-19 a'r dylanwad andwyol cysylltiedig ar deithio wedi cael effaith drychinebus ar berfformiad gwestai ledled Ewrop yn 2020.

Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd y gyfradd ddefnydd yn 33% yn unig, sef cwmp o fwy na 50% (mewn termau cymharol) o'i chymharu â 2019. Roedd y lefel hon o leihau yn fwy trawiadol nac yn y DU ar y cyfan.

Bu cwmp mewn ADR hefyd oherwydd diffyg galw a chyffredinrwydd mwy o rannau hamdden gwerth is, gan arwain at effaith andwyol ar gyfraddau ystafelloedd gwestai yn y DU hefyd. Yn 2020, roedd ADR yn £80.23. Roedd hyn yn ostyngiad o 19% o'i gymharu â 2019, pan oedd ADR yn £99.11. O ganlyniad, bu cwmp enfawr o 60% mewn RevPAR i £26.53 yn 2020. Yn gyffredinol, roedd hyn yn gyfwerth yn gyffredinol â'r gostyngiad a welwyd yn y DU.

Roedd effeithiau andwyol COVID-19 yn eang ar draws y rhanbarth wrth i'r holl wledydd nodi gostyngiadau difrifol mewn defnydd o 40% neu fwy, o'u cymharu â 2019. Roedd y darlun cyffredinol yn dywyll o safbwynt refeniw ystafelloedd hefyd. Fodd bynnag, roedd llai o effaith ar rai marchnadoedd nac eraill. Cwmpodd cyfraddau ystafelloedd gwestai gan lai na 10% mewn nifer fach o wledydd, gan gynnwys Awstria, Bwlgaria, Slofacia a Thwrci. Yn y cyfamser, cofnododd gwestywr Sbaen gynnydd mewn ADR, o'i gymharu â 2019, sy'n eithriad i lefel perfformiad sy'n siomedig ar draws y rhanbarth i gyd fel arall.

O ganlyniad o ADR a, mwy na hynny, defnydd, yn gostwng, bu cwmp mawr yn RevPAR o fwy na 50% ym mhob gwlad yn y rhanbarth, ac mewn rhai gwledydd, cafwyd gostyngiadau o fwy na 70% mewn RevPAR. Y gwledydd lle bu'r effaith fwyaf oedd y Weriniaeth Dsiocaidd, Hwngari a Malta, lle cofnodwyd gostyngiadau mewn RevPAR o 75% neu fwy.

Ewrop - Defnydd Gwestai, ADR a RevPAR (Blynnyddol)⁵

	2019	2020
Ewrop – Defnydd Ystafelloedd	72%	33%
Ewrop – ADR	£99.11	£80.23
Ewrop – RevPAR	£71.56	£26.53

⁵Ffynhonnell: Adolygiad o Westai Ewrop STR Rhagfyr 2020.

Cymru Gyfan – Tueddiadau Defnydd Gwestai

Mae'r adran hon yn amlinellu tueddiadau defnydd ystafelloedd a gwelyau gwestai cenedlaethol a rhanbarthol dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'r metrigau hyn yn galluogi dealltwriaeth o lefelau twristiaeth mewn cyrchfannau dros amser. Gallant hefyd dynnu sylw at gyfleoedd i ysgogi twf twristiaeth ar wahanol adegau o'r flwyddyn trwy ymgyrchoedd a digwyddiadau.


Cyn y pandemig, roedd gan westai yng Nghymru ddefnydd ystafelloedd cyson o tua 65% a defnydd gwelyau yn agos i 50%.

Fodd bynnag, oherwydd COVID-19 a'i effaith ar deithio, mae cyfyngiad llym mewn perfformiad wedi bod. Yn gyffredinol, dros y flwyddyn, roedd defnydd ystafelloedd ar gyfer gwestai a oedd yn adrodd 45% yn unig, a defnydd gwelyau yn 31%. Roedd y lefelau o berfformiad hyn yn is na'r rhai hynny a welwyd yn 2019, sef 66% a 49%.

Mae'r tueddiad yn y blynyddoedd diwethaf wedi gweld cynnydd bach yn nifer yr ystafelloedd gwestai yn y wlad wrth i gyflenwad newydd fynd y tu hwnt i achosion o gau. O ganlyniad, er bod y defnydd o ystafelloedd wedi parhau i fod yn gyson ar y cyfan, mae maint cyffredinol y farchnad wedi cynyddu ychydig.

Mae'r data yr adroddwyd amdano yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ddeiliadaeth net sy'n cyfeirio at y busnesau hynny a oedd ar agor ac a ddarparodd ddata yn ystod y cyfnod hwn yn unig.

Cymru Gyfan – Defnydd Gwestai (Blynyddol)



* Nodyn: Oherwydd effaith COVID-19, nid yw data defnydd Cymru 2020 wedi'i bwysoli, ond mae data Cymru rhwng 2016 a 2019 wedi'i bwysoli ar fethodoleg sampl a bwysolwyd a ddefnyddiwyd mewn blynyddoedd blaenorol hefyd. Oherwydd y newid hwn yn y fethodoleg yn ystod 2020, ni ellir cymharu'r data gwestai a ddangosir yn yr adroddiad hwn â blynyddoedd blaenorol.

Cymru Gyfan – Tueddiadau Defnydd Gwestai

Fel arfer, mae'r tymor yn cael dylanwad mawr ar y defnydd o westai yng Nghymru. Mae'r defnydd uchaf yn ystod cyfnod prysur misoedd yr haf, ac mae'r defnydd isaf yn ystod misoedd cynnar y flwyddyn.


Yn 2020, arweiniodd pandemig COVID-19 a'i effaith ar deithio at batrwm anarferol o ddefnydd. Fodd bynnag, gwnaeth mis Awst a mis Medi barhau i fod yn fisoedd a berfformiodd yn well wrth i'r diwydiant elwa o'r twf sydyn mewn galw yn dilyn y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf.

Er i gyfyngiadau teithio lacio ym mis Gorffennaf, roedd y defnydd yn ystod y mis hwn ymhell islaw hwnnw mewn blynyddoedd blaenorol, gan olygu bod cyfnod byrrach o fasnach bwysig yr haf i westywr.

Heb syndod felly, roedd perfformiad ar ei isaf yn ystod misoedd y cyfnod clo a'r cyfyngiadau sylweddol ar deithio. Yn y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf, rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf, roedd y defnydd o ystafelloedd tua 30%. Roedd y lefel hon o ddefnydd ymysg y gwestai a oedd ar agor at ddibenion hanfodol yn unig.

Ym mis Hydref a mis Tachwedd, wrth i'r cyfnod atal byr ddod i rym, bu cwmp trawiadol arall mewn defnydd. Er i ddefnydd gynyddu ychydig yn ystod mis Tachwedd yn dilyn y cyfnod atal byr, arweiniodd cyfyngiadau cynyddol, ac yna cyfnod clo cenedlaethol arall yn hwyrach ym mis Rhagfyr at ddiwedd gwael i'r flwyddyn, gyda'r defnydd o ystafelloedd yn 25% yn unig.

Cymru Gyfan – Defnydd Gwestai (Misol)



* Nodyn: Oherwydd effaith COVID-19, nid yw data defnydd Cymru 2020 wedi'i bwysoli, ond mae data Cymru rhwng 2016 a 2019 wedi'i bwysoli ar fethodoleg sampl a bwysolwyd a ddefnyddiwyd mewn blynyddoedd blaenorol hefyd. Oherwydd y newid hwn yn y fethodoleg yn ystod 2020, ni ellir cymharu'r data gwestai a ddangosir yn yr adroddiad hwn â blynyddoedd blaenorol.

Rhanbarthau Cymru – Tueddiadau yn y Defnydd o Westai


Gan ystyried cyfnod o amser 9 mis o hyd – sef mis Ionawr i fis Mawrth a mis Gorffennaf i fis Rhagfyr – lle mae data y gellir ei gymharu, roedd defnydd ystafelloedd yn 42% yn unig yng nghanolbarth Cymru. Hyn oedd y defnydd ystafelloedd isaf a gofnodwyd yn rhanbarthau Cymru.

Yn y cyfamser, roedd y defnydd uchaf yn ne-orllewin Cymru, ar 51% yn ystod y naw mis, ac yna gogledd Cymru (50%) a de-ddwyrain Cymru (44%).

I'r gwrthwyneb i'r tueddiad a welwyd ar gyfer y defnydd o ystafelloedd, cofnododd gwestai yng nghanolbarth Cymru y defnydd uchaf (cyfartal) o welyau, sef 36%. O ganlyniad, cafodd y gwestai hyn y gymhareb gwelyau a'r defnydd o ystafelloedd uchaf. Golyga hyn eu bod nhw'n denu mwy o ymwelwyr hamdden yn gyfatebol na gwestai mewn rhanbarthau eraill, gan fod y mathau hyn o ymwelwyr yn tueddu i deithio mewn parau neu grwpiau mwy.

Yn y cyfamser, cofnododd gwestai de-ddwyrain Cymru y defnydd o welyau isaf, sef 30% yn unig. Mae'r data'n awgrymu bod gwestai de-ddwyrain Cymru wedi dioddef y mwyaf yn ystod y pandemig gan fod defnyddwyr wedi osgoi cyrchfannau mwy adeiledig, megis Caerdydd, a bod effaith anghymesur wedi bod ar deithio at ddibenion busnes, sef rhan o'r diwydiant sy'n tueddu i fod yn bwysicach ar gyfer gwestai mewn ardaloedd trefol.

**Rhanbarthau Cymru – Defnydd Gwestai
(Cyfnod 9 mis fesul rhanbarth Cymru)**



Nodyn: Nid yw'r siart yn cynnwys data Ebrill i Fehefin 2020 er mwyn galluogi cymhariaeth gyson ar draws y rhanbarthau.

Oherwydd effaith COVID-19, nid yw data defnydd Cymru 2020 wedi'i bwysoli

Cymru Gyfan – Tueddiadau Refeniw Gwestai


Mae'r adran hon yn amlinellu tueddiadau perfformiad gwestai Cymru o ran dau fesur perfformiad ariannol allweddol a ddefnyddir gan weithredwyr gwestai: cyfradd ddyddiol ar gyfartaledd (ADR) a refeniw fesul ystafell sydd ar gael (RevPAR).

Yn y pedair blynedd yn arwain i 2020, roedd perfformiad gwestai yng Nghymru yn gyson, gydag ADR o tua £65 a RevPAR o tua £50.

Fodd bynnag, yn 2020, roedd ADR a RevPAR ar gyfer y gwestai a atebodd yn sylweddol o is. Roedd hyn oherwydd y galw llawer llai am lety ac, o ganlyniad, defnydd is o ganlyniad i'r pandemig. Dioddefodd gwestai ymhellach yn ystod y flwyddyn gan fod llawer llai o deithwyr busnes gwerth uwch o'u cymharu â blyneddau blaenorol, eto oherwydd effaith COVID-19.

Yn gyffredinol, roedd ADR yn £52.84 yn 2020, sef yn is na'r ADR o £67.32 yn 2019. Yn y cyfamser, roedd RevPAR, sy'n cynnwys ystafelloedd wedi'u gwerthu a heb eu gwerthu, yn £22.71 yn 2020, o'i gymharu â £50.34 yn 2019.

Cymru Gyfan – ADR & RevPAR Gwestai (Blyneddol)



* Nodyn: Oherwydd effaith COVID-19, nid yw data defnydd Cymru 2020 wedi'i bwysoli, ond mae data Cymru rhwng 2016 a 2019 wedi'i bwysoli ar fethodoleg sampl a bwysolwyd a ddefnyddiwyd mewn blyneddau blaenorol hefyd. Oherwydd y newid hwn yn y fethodoleg yn ystod 2020, ni ellir cymharu'r data gwestai a ddangosir yn yr adroddiad hwn â blyneddau blaenorol.

Cymru Gyfan – Tueddiadau Refeniw Gwestai

Mae perfformiad refeniw ystafelloedd gwesty yng Nghymru fel arfer yn dilyn patrwm defnydd tebyg, ond llai amlwg, gyda'r perfformiad uchaf yn ystod misoedd yr haf a'r lefelau isaf o ADR a RevPAR yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn. Fodd bynnag, fel y trafodwyd yn flaenorol, arweiniodd y pandemig, a'i effaith ar deithio yn 2020, at heriau sylweddol i westywr. Mae'r heriau hyn yn cael eu hadlewyrchu gan fod ADR a, mwy byth, RevPAR (ac eithrio misoedd Ionawr a Chwefror) ymhell islaw lefelau tueddiad yn 2020.


Yn ystod cyfnodau clo cenedlaethol a chyfyngiadau cenedlaethol mewn perthynas â theithio (Mawrth hwyr i Orffennaf cynnar 2020, diwedd Hydref i Dachwedd cynnar a diwedd Rhagfyr), roedd gwestai dim ond yn gallu masnachu gyda gwesteion yr oedd angen llety arnynt am resymau hanfodol. O ganlyniad, roedd gostyngiadau llym mewn defnydd yn ystod y cyfnodau hyn, ac ADR a RevPAR llawer is.

Roedd ADR a RevPAR ar gyfer gwestai a ymatebodd ar eu hisaf yn ystod mis Ebrill, sef £39.45 a £7.77, o'u cymharu â mis Ebrill 2019, pan oedd ADR yn £66.97, a RevPAR yn £50.77. Roedd lefelau perfformiad yr un mor wael, boed ychydig yn uwch, yn ystod y misoedd eraill pan oedd cyfyngiadau teithio sylweddol.

Y mis gorau o ran perfformiad oedd Chwefror, sef cyn pandemig COVID-19. Y mis hwn oedd â'r RevPAR uchaf yn ystod o flwyddyn, sef £46.52.

Yn y cyfamser, mis Awst a mis Medi oedd y misoedd gyda'r perfformiad gorau yn ystod y pandemig, gydag ADR o tua £60 a RevPAR o tua £35.

Cymru Gyfan – ADR & RevPAR Gwestai (Misol)




Rhanbarthau Cymru – Tueddiadau Refeniw Gwestai

Roedd ADR a RevPAR ymhell o dan lefelau'r blynyddoedd blaenorol ym mhob un o ranbarthau Cymru lle mae digon o ddata i'w adrodd.

Gwestai yn ne-ddwyrain Cymru, sy'n cynnwys Caerdydd, oedd â'r ADR uchaf o £58.86, gyda gwestai gogledd Cymru yn ail (£51.41) a de-orllewin Cymru yn drydydd (£49.97).

Fodd bynnag, cofnododd gwestai de-ddwyrain Cymru'r RevPAR isaf ymysg y rhanbarthau â digon o ddata, sef £26.36. Roedd hyn yn ganlyniad y defnydd is a gafwyd ganddynt o'i gymharu â gwestai yng ngogledd Cymru a de-orllewin Cymru. Wedi dweud hynny, roedd perfformiad gwestai ym mhob un o'r tri rhanbarth hyn gyda digon o ddata yn debyg yn gyffredinol, gyda RevPAR oedd yn llai na £30, ymhell yn llai na lefelau tueddiadau.

Rhanbarthau Cymru – ADR a RevPAR (Cyfnod 9 mis fesul rhanbarth Cymru)



Nodyn: Nid yw'r siart yn cynnwys data Ebrill i Fehefin 2020 er mwyn galluogi cymhariaeth gyson ar draws y rhanbarthau.

Nodyn: Mae cyfresi data coll yn dangos nad oes digon o ddata at ddibenion adrodd.

Tai Llety/Gwely a Brecwast



Mae'r adran hon yn cyflwyno crynodeb o berfformiad ar gyfer lefelau defnydd gwely ac ystafelloedd ar gyfer Tai Llety/Gwely a Brecwast

Oherwydd maint sampl fisol isel yr arolwg Tai Llety/Gwely a Brecwast (yn amrywio rhwng 12 – 26), dylid bod yn ofalus wrth edrych ar ganlyniadau'r adran hon.


Tueddiadau Tai Llety/Gwely a Brecwast Cymru

Defnydd


Yn 2020, roedd y defnydd o ystafelloedd a gwelyau yn 36% a 30%. Yn nhrydydd chwarter y flwyddyn, daeth y defnydd o ystafelloedd ym mis Awst a mis Medi i uchafbwynt o 74% a 63%, tra cafwyd effaith ar chwarter olaf y flwyddyn gan y cyfnod atal byr ar ddiwedd mis Hydref/dechrau mis Tachwedd a chyfyngiadau pellach ym mis Rhagfyr.

Oherwydd cyfyngiadau cyfnodau clo y DU a chau dros dro busnesau llety yng Nghymru, ni chasglwyd canlyniadau defnydd ar gyfer Ebrill, Mai na Mehefin. Dylid nodi bod meintiau sampl yn 2020 yn fach ac felly dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r canlyniadau hyn. Oherwydd meintiau sampl bach yn 2020, mae data ar gyfer tai llety/sefydliadau gwely a brecwast wedi'i gyflwyno heb ei bwysoli ac ni ddylid ei gymharu'n uniongyrchol â ffigurau wedi'u pwysoli ar gyfer blynyddoedd blaenorol.

Cymru – Defnydd Tai Llety/Gwely a Brecwast (Blynyddol)*



Defnydd Ystafelloedd a Gwelyau Blynyddol 2016-2020



* Oherwydd newid yn y fethodoleg yn ystod 2020, ni ellir cymharu'r data tai llety/gwely a brecwast â blynyddoedd blaenorol


Cymru yng Nghyd-destun y DU

Defnydd


Roedd lefelau defnydd ystafelloedd yng Nghymru ar 36% yn ystod 2020, a defnydd gwelyau ar 30%. Gellir gweld effeithiau'r pandemig ar draws yr Alban lle'r oedd lefelau defnydd ystafelloedd wedi cwmpo gan 37 pwynt canran a defnydd gwelyau wedi gostwng 32 pwynt canran wrth eu cymharu â 2019. Nid oedd ffigurau ar gael ar gyfer Gogledd Iwerddon ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Y DU – Defnydd Tai Llety/Gwely a Brecwast (Blynyddol) ¹

Defnydd Ystafelloedd



Defnydd Gwelyau



* Oherwydd newid yn y fethodoleg yn ystod 2020, ni ellir cymharu'r data tai llety/gwely a brecwast â blynyddoedd blaenorol

¹Ffynonellau: VisitScotland, nid oedd ffigurau ar gael ar gyfer Gogledd Iwerddon ar adeg llunio'r adroddiad hwn.

Rhanbarthau Cymru – Cyfartaledd Blynyddol a 3 Mlynedd


Cymru – Defnydd Rhanbarthol Tai Llety/Gwely a Brecwast (Cyfartaledd Blynyddol a 3 Mlynedd)

Yn ystod 2020, roedd lefelau defnydd ystafelloedd yn ne-orllewin Cymru yn uwch (42%) na'r holl ranbarthau eraill, gyda gogledd Cymru'n ail (28%). Dilynodd defnydd gwelyau batrwm tebyg yn y de-orllewin. Nid oes gennym ganlyniadau ar gyfer de-ddwyrain a chanolbarth Cymru oherwydd sampl annigonol.


O 2016 i 2019, roedd defnydd ystafelloedd a gwelyau yn gyson ar draws yr holl ranbarthau. Gyda chau dros dro busnesau llety ar adegau amrywiol drwy gydol 2020, mae maint y sampl o'r sector tai llety/gwely a brecwast yn gymharol fach a chyflwynwyd y data heb ei bwysoli fel blwyddyn unigol yn hytrach na chyfartaledd 3 blynedd, ac felly dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canlyniadau hyn.

Cymru – Tueddiadau Tai Llety/Gwely a Brecwast a Chyfartaleddau 3 mlynedd

Defnydd Ystafelloedd



Defnydd Gwelyau



* Oherwydd newid yn y fethodoleg yn ystod 2020, ni ellir cymharu'r data tai llety/gwely a brecwast â blynyddoedd blaenorol

Llety Hunanddarpar



Mae'r adran hon yn cyflwyno crynodeb o berfformiad ar gyfer llety hunanddarpar, gan gynnwys bythynnod, byngalos, porthdai/cabanau, tai a fflatiau ac yn crynhoi'r wybodaeth a gafwyd o sampl o weithredwyr ac asiantaethau annibynnol wedi'u dilysu sy'n cynnig llety o'r math hwn yng Nghymru. Dyluniwyd y sampl i fod yn gynrychioliadol i raddau helaeth o'r ystod o lety wedi'i ddodrefnu sydd ar osod trwy weithredwyr o'r fath.

Mae defnydd yn cael ei fesur ar lefel yr eiddo unigol trwy fynegi nifer yr wythnosau sy'n cael eu gosod bob mis fel cyfran o'r wythnosau a'r unedau sydd ar gael i'w rhentu.

Cymru – Tueddiadau Defnydd Hunanddarpar

Mae'r rhan hon yn amlinellu tueddiadau defnydd uned hunanddarpar cenedlaethol a rhanbarthol dros gyfnod o 12 mis.


Cymru (Gyfan)

Yn wahanol i'r gwestai a thai llety/Gwely a Brecwast, adferodd lefelau defnydd yn y sector hunanddarpar yn dda pan godwyd cyfyngiadau yn gynnar ym mis Gorffennaf. Roedd defnydd uned yn 52%, sef cwmp o 5 pwynt canran ar y flwyddyn flaenorol.

Oherwydd cyfyngiadau COVID-19, ni chaniatawyd i weithredwyr hunanddarpar agor yn ystod mis Mai a mis Gorffennaf, ac mae'r data a ddangosir am 2020 yn deillio o'r cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref. Felly, mae defnydd uned cyfartalog o 74% yn seiliedig ar nifer lai o fisoedd o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol a gallai esbonio'r cynnydd o 5 pwynt canran ar 2019.

Fodd bynnag, dylid nodi bod maint y sampl yn ystod 2020 llawer yn llai o fis Medi ymlaen, nid oherwydd pandemig COVID-19 ond oherwydd bod newid o ran perchenogaeth asiantaeth hunanddarpar mawr ac felly ni ddarparwyd data am ran o'r flwyddyn.

Cymru – Defnydd Hunanddarpar – Blynyddol a Newid
Mai i Hydref 2016 | 2020




*Yn seiliedig ar gyfartaledd 12 mis llawn oherwydd bod eiddo hunanddarpar ar gau am rai adegau o'r flwyddyn. Mae'r defnydd blynyddol cyfartalog yn ystyried yr holl ddata a gyflwynwyd drwy gydol y flwyddyn am y sefydliadau sydd ar agor.

Hunanddarpar – Tueddiadau Defnydd Uned

Er na chasglwyd data yn ystod mis Ebrill a mis Mehefin 2020, adferodd y sector hunanddarpar yn dda pan godwyd cyfyngiadau, gan barhau i ddangos lefelau uchel o ddefnydd yn ystod cyfnodau mwyaf prysur mis Gorffennaf, mis Awst a mis Medi. Gwelwyd y lefelau defnydd uchaf yn ystod misoedd yr haf 2020, ac yn benodol mis Awst (90%), tra bod lefelau perfformiad ar eu hisaf ym mis Rhagfyr (30%), mis Ionawr (37%) a mis Tachwedd (38%). Gan ystyried effaith COVID-19 ar lefelau defnydd ar draws y sector hunanddarpar, mae'r lefelau a gafwyd yn ystod cyfnodau prysur yn dangos pwysigrwydd misoedd yr haf a thueddiadau tymhorol yn nefnydd hunanddarpar Cymru.

Cymru – Defnydd Uned Hunanddarpar Cyfartalog (misol) 2019 a 2020 *




*Yn seiliedig ar gyfartaledd 12 mis llawn oherwydd bod eiddo hunanddarpar ar gau am rai adegau o'r flwyddyn. Mae'r defnydd blyneddol cyfartalog yn ystyried yr holl ddata a gyflwynwyd drwy gydol y flwyddyn am y sefydliadau sydd ar agor.

Hunanddarpar – Cymru yng Nghyd-destun y DU

Mae'r adran hon yn cyflwyno crynodeb o dueddiadau perfformiad hunanddarpar yng Nghymru yn 2020.

Defnydd

DU – Defnydd Uned Hunanddarpar (Blynyddol)¹



Ar draws Cymru gyfan, bu cwmp yn lefelau defnydd unedau o 5 pwynt canran yn 2020, o'u cymharu â 2019.

